# Cofnodion cyfarfod rhif 94
# Pwyllgor Cynghori Cymru
# a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ar 2 Hydref 2024 yng Nghaernarfon

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Aled Eirug | Cadeirydd |
| Amanda Rees | Aelod |
| Angharad Evans | Aelod |
| Karen Lewis | Aelod |
| Geraint Strello | Aelod |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Clive Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Philip Henfrey | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Ella Breeze | Gweinyddwr Materion Rheoleiddiol, Ofcom Cymru |
| Ffion Hughes | Swyddog Cyswllt Cyfryngau Cymdeithasol, Ofcom Cymru |
| Rhys Llewellyn | Uwch Reolwr y Gymraeg, Ofcom Cymru |

Cydweithwyr eraill o Ofcom

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Rachel Burr | Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau |
| Robert Andrews | Aelod |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| **1. Cyflwyniad**<br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 94 Pwyllgor Cynghori Cymru (PCC). Cafwyd ymddiheuriadau gan Rachel Burr a Robert Andrews.<br>Eglurodd Aled Eirug fod Robert Andrews wedi ymddiswyddo o'r bwrdd ar sail gwrthdaro rhwng buddiannau. |
| **2. Diweddaru datganiadau a gwrthdaro rhwng buddiannau**<br>Geraint Strello – un o randdeiliaid BT ac aelod o gynllun pensiwn BT.<br>Amanda Rees – Aelod o'r Bwrdd yn Asiantaeth Datblygu Cwmpas<br>Aled Eirug – Aelod o'r teulu yn gweithio i Aelod o'r Senedd ar hyn o bryd.<br>Karen Lewis - ar grŵp llywio Compass. |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024 a materion sy'n codi** |

**Eitemau ar yr Agenda**

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024 wedi cael eu dosbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. **CYMERADWYWYD** y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod heb ddiwygiadau.

**Materion yn codi/Camau gweithredu heb eu cyflawni -**

Awgrymodd y Cadeirydd ychwanegu rhifau tudalennau i fformat y ddogfen yn y dyfodol.

Mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelwch a Niwed Ar-lein a'r digwyddiadau diweddar yn Southport, cynigiwyd bod Swyddfa Ofcom Cymru yn ystyried cynnal digwyddiad bwrdd agored gyda'r posibilrwydd o weithdai ar Ddiogelwch Ar-lein ac Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau.

*CAM GWEITHREDU - bydd PH yn trafod hyn â phartïon perthnasol ac yn trafod cyfleoedd yng nghyfarfod nesaf y PCC ar 26 Tachwedd 2024.*

**4. Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**

Bu'r Cadeirydd yn pwyso a mesur pa mor effeithiol oedd y digwyddiad i randdeiliaid (a gynhaliwyd y noson flaenorol) o ran agor trafodaethau a chodi ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a materion cyfredol ledled y diwydiant.

Yn ogystal, trafodwyd adnewyddiad Trwydded C4 oedd ar y gweill ar hyn o bryd.

**5. Diweddariad: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom**

Rhoddodd yr Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom ddiweddariad ar lafar a bydd yn dosbarthu diweddariad ysgrifenedig yn y dyfodol. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

**Llywodraeth Newydd** - a'r newid mewn deialog a'r ymgysylltu presennol â thîm gweithredol Ofcom.

**Cynllun OSH ar gyfer 2025.**

**'Newyddion Dibynadwy'** -Yr angen am drafodaeth bellach mewn ymateb i dueddiadau diweddaraf defnyddwyr.

**Yr Adolygiad o PSM** – sicrhau adroddiadau newyddion yng Nghymru ac am Gymru yn y dyfodol.

**Diwrnod Strategaeth Ar y gweill** gyda'r Prif Fwrdd – gan ganolbwyntio ar y cysylltiad rhwng rheoleiddio a thwf economaidd yn y dyfodol

**Adroddiad Blynyddol y BBC** – Siâp a strwythur yr adroddiad a gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau o safbwynt Radio.

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** yn y diwydiant – mae llai o fenywod yn y diwydiant ar hyn o bryd efallai oherwydd y dirwasgiad. Serch hynny, mae dyletswydd i gynnal safonau.<br><br>**Trwydded C4** –Cynnig i wahodd deiliaid rhai swyddi uwch penodol yn C4 i ddod i gyfarfod gyda'r PCC yn y flwyddyn newydd, er mwyn rhoi sylw i feysydd o ddiddordeb. |
| **6. Diweddariad: Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br><br>Roedd y prif uchafbwyntiau a grybwyllwyd yn ystod y cyfarfod yn cynnwys y canlynol:<br><br>**Llywodraeth Newydd –** Prif Weinidog newydd i Gymru, ac Aelodau Seneddol newydd dros Gymru yn y Llywodraeth. Un o brif flaenoriaethau tîm Ofcom Cymru yw deall blaenoriaethau gweinidogion newydd yng nghyswllt y sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio yng Nghymru.<br><br>**Sbectrwm** – trafodaeth ynghylch sesiwn 'addysgu' i'r pwyllgor gan ein tîm Sbectrwm. Bydd y sesiwn yn canolbwyntio ar gryfhau dealltwriaeth o effaith datblygiadau technolegol fel cynnydd o ran faint o fand eang sydd ar gael, a sut i adnabod cyfleoedd ar gyfer twf/arallgyfeirio yn y diwydiant. Diddordeb mewn gwahodd Peter Williams i fod yn bresennol oherwydd gallai ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth bontio'r bwlch rhwng datblygiadau ym myd technoleg a rhoi'r datblygiadau hyn ar waith yn ymarferol. |
| **7. Diweddariad: Polisi Cyhoeddus – Cyflwynwyd gan Robert Brown**<br><br>**Llywodraeth Newydd** – mae PPT wedi bod wrthi'n brysur yn canfod ac yn cyfarfod â gweinidogion allweddol. Yn benodol, Nia Griffiths. Mae'r meysydd mae hi'n ymddiddori ynddynt yn cynnwys Araith y Brenin, y Ddeddf Diogelwch a Niwed Ar-lein a'r Bil Diogelwch Deallusrwydd Artiffisial.<br><br>**Camwybodaeth a Thwyllwybodaeth** – Yn dilyn y digwyddiadau yn Southport yn ystod yr haf eleni a'r terfysgoedd a ddeilliodd o hynny ledled y DU, gofynnwyd am drafodaeth ynghylch deddfwriaeth sy'n ymwneud â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth.<br><br>**Deddfwriaeth Deallusrwydd Artiffisial** – mae angen canolbwyntio ar y ffin. Y Sefydliad Diogelwch Deallusrwydd Artiffisial |
| **8. Siaradwyr allanol: Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr**<br><br>Gruff Prys, Uwch Derminolegydd; Pennaeth yr Uned Technolegau Iaith<br><br>Lowri Angharad Hughes, Pennaeth Polisi a Datblygu.<br><br>**'Mae gan bawb hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddiogel ar-lein.'** |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| Dangosodd ymchwil fod y rheini sy’n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o ddioddef twyll ar-lein os bydd rhywun yn cysylltu â nhw yn Gymraeg. Yn gyffredinol, mae diffyg dealltwriaeth ymysg aelodau’r gymuned hŷn o ran yr hyn sy’n cael ei ddosbarthu fel ‘Diogelwch Ar-lein.’<br><br>**Ap Macsen** – cafwyd arddangosiad o'r ap yn ystod y cyfarfod. Roedd hwn yn tynnu sylw at y cyfleoedd a'r manteision sydd gan dechnoleg i’w cynnig yn ogystal â’r diffyg mewn gwasanaethau Deallusrwydd Artiffisial eraill yn y Gymraeg. Awgrymodd y datblygwyr y byddai gallu cael gafael ar ddata darlledwyr ar gyfieithu yn cefnogi datblygiadau yn y dyfodol o ran effeithiolrwydd y dechnoleg. Lleisiwyd rhai pryderon ynghylch hawlfraint, GDPR, a'r angen am indemniadau. A allai'r pwyllgor ddefnyddio ei lais i gyfleu risgiau posibl isdeitlau ffug a lledaenu camwybodaeth i’r darlledwyr a chychwyn deialog rhwng Canolfan Bedwyr a’r darlledwyr. |
| **9. Siaradwyr allanol: Technoleg a’r Iaith Gymraeg**<br>Dr Jeremy Evans, Pennaeth y Prosiect 2050, Llywodraeth Cymru.<br>Dr Indeg Marshall, Arbenigwr Technoleg Iaith, Llywodraeth Cymru<br><br>**Heriau a Blaenoriaethau** – mae diffyg o ran diogelwch ar-lein yng nghyswllt y Gymraeg. Wrth ddatblygu polisi, bydd angen i Ofcom ystyried yr heriau o ran y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Awgrymwyd y gallai Ofcom adolygu'r polisïau sydd wedi cael eu rhoi ar waith gan lywodraethau gwledydd eraill at ddibenion arferion gorau. |
| **10. Adolygiad o’r Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus - Cylch gorchwyl**<br>Helen Shaw, Kathleen Henehan a Caroline Longman<br><br>Mae’r adolygiad yn tynnu sylw at yr heriau parhaus sy’n wynebu Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB), yn anad dim tueddiadau gwylio defnyddwyr a chynaliadwyedd ariannol. Rhagwelir y bydd gweithredu Deddf Cyfryngau 2024 yn helpu Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well.<br><br>Cynigiodd y Cadeirydd gymorth aelodau'r PCC gyda datblygu’r PSM. |
| **11. Dyfodol Cysylltedd Di-wifr**<br>Rebecca Taylor, Samantha Kichman ac Eleanor Scott<br><br>Yn y cyflwyniad, nodwyd fod y prosiect yn ystyried Cwestiwn 2 ar hyn o bryd ac y byddai'r prosiect yn croesawu barn y pwyllgor ar ‘Beth yw gweledigaeth 10-mlynedd Ofcom ar gyfer dyfodol cysylltedd band eang diwifr?’ Yn dilyn hyn rhannwyd y drafodaeth yn 3 phwnc, sef:<br>• Canlyniadau da i’r defnyddiwr a'r busnes.<br>• Damcaniaethau'r defnyddiwr a’r busnes |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| • Cyfweliadau â rhanddeiliaid allanol.<br><br>Tynnodd aelod sylw at y diffyg o ran rhanddeiliaid o Gymru ar y rhestr. Yna, cynigiodd y pwyllgor ddrafftio rhestr o randdeiliaid posibl o Gymru a, lle'r oedd hynny'n bosibl, eu cyflwyno. |
| **12. Cysylltu'r Gwledydd 2024: Adroddiad Cymru**<br><br>James King, Cathrine Wanjiku ac Elinor Williams<br><br>Mae'r papur yn rhoi crynodeb o'r prif bynciau a fydd yn cael eu cynnwys yn Cysylltu'r Gwledydd 2024: Adroddiad Cymru gan ei osod yng nghyd-destun y set ehangach o gyhoeddiadau Cysylltu'r Gwledydd<br><br>Roedd yr awduron yn croesawu sylwadau gan aelodau'r pwyllgor a darparwyd y sylwadau canlynol:<br><br>• Cynnwys mapiau etholaeth newydd.<br>• Diagramau lliw yn dangos yr amrywiol ddewisiadau cysylltu. |
| **13. Cynllun Gwaith Ofcom 2025/26**<br><br>Paige Tonks, Eleanor Scott, Tahnyia Rahman, Jemima Jones<br><br>Roedd yr awdur yn croesawu sylwadau gan y pwyllgor ar feysydd y dylid eu cynnwys yn y Cynllun Gwaith ar gyfer 25-26.<br><br>Pynciau eraill o bwys oedd sicrhau bod strwythur Cynllun Gwaith 25-26 yn cyd-fynd â'r Cynllun Tair Blynedd, a'r canlyniadau â blaenoriaeth oedd yn cyd-fynd â phob un o'r pedwar grŵp polisi. Hefyd, gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried unrhyw amgylchiadau allanol a allai effeithio ar ddefnyddwyr a rhanddeiliaid. |
| **14. Diweddariad: Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>Mae'r Cadeirydd yn awyddus i fynd ar daith. Cyfarfod yng Nghymru ym mis Chwefror 2025. |
| **15. Diweddariad: Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Cynnwys Ofcom**<br><br>Oherwydd ymrwymiadau eraill, bu'n rhaid i'r aelod adael y cyfarfod yn gynnar.<br><br>Dim trafodaeth. |
| **16. Ymgynghoriadau a Chyhoeddiadau i ddod**<br><br>Dim trafodaeth. |
| **17. Data cwynion ar gyfer Cymru**<br><br>Dim trafodaeth. |
| **Unrhyw Faterion Eraill ac eitemau ar gyfer agendâu'r dyfodol**<br><br>**Unrhyw Fater Arall -**<br><br>**Dyddiad Cyfarfod nesaf y PCC - 26 Tachwedd 2024** |

| Eitemau ar yr Agenda |
|---|
| Oherwydd digwyddiad arall ar yr un pryd yn y dyddiadur, cynigiwyd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn y prynhawn a bod PH yn ymuno ag ef dros TEAMS.<br><br>**Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:**<br>Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2024<br><br>Cyfarfodydd 2025<br>Dydd Iau 6 Mawrth<br>Dydd Mawrth 10 Mehefin<br>Dydd Mercher 1 Hydref<br>Dydd Mawrth 9 Rhagfyr |